

Gwasanaethu Eraill

An illustration of a modern building with a checkered facade, surrounded by trees and people walking. The building has a grid of windows and a colorful mural at its base. The scene is set against a blue sky and green grass.

Ymchwil Ysbrydol Randolph a'i Chwiliad am Ystyr

Ymchwil Ysbrydol Randalph a'i
Chwiliad am Ystyr

Gwasanaethu Eraill

Tania ap Siôn

Darluniwyd gan Phillip Vernon



Bear Lands Publishing

Cyhoeddwyd gan Bear Lands Publishing
Canolfan y Santes Fair
Llys Onnen
Abergwyngregyn
Gwynedd
LL33 0LD
Cymru (UK)

Nodir Tania ap Siôn a Phillip Vernon fel awduron
y gwaith hwn.
Cyfieithwyd gan Nant Roberts.


©Hawlfraint y Goron 2019.

Cyhoeddwyd gyntaf 2019.

Noddir gan Lywodraeth Cymru.

CYNNWYS

Teithiau Randalph Ddoeth	7
1 Ar y Stryd	8
2 Y Drws at y Guru	10
3 Cegin Rydd	14
4 Rhywbeth i Bawb	18
5 Gwasanaethu'n Dda	22
6 Partneriaeth Gristnogol	26
7 Elusen Fwslimaidd	30
Allwch chi helpu Randalph?	34
Randalph Ddoeth yn mynd yn ei ôl adref	36





Teithiau Randolph Ddoeth

Eisteddodd Randolph Ddoeth yn ei gadair, gan grafu ei ben llwyd henaidd, a meddwl am y cwestiwn mawr iawn.

“Beth sydd *wir* yn bwysig?” gofynnodd i’r ystafell wag mewn llais dwfn, trwm. Fel arfer, doedd dim lleisiau eraill i’w ateb.

Roedd y cwestiwn, ‘beth sydd *wir* yn bwysig’ wedi achosi i Randolph Ddoeth bendroni llawer. Roedd wedi treulio llawer o ddyddiau’n meddwl am y peth, ond roedd yn gwybod na fyddai’n dod o hyd i atebion drwy aros yn ei ystafell.

“Fe af i allan i’r byd!” dywedodd Randolph Ddoeth. “Fe fydda i’n dod o hyd i atebion yno ac yn dod â nhw’n ôl yma.”

Gwisgodd Randolph Ddoeth ei gôt a’i het, cododd ei fag, a gafael yn ei ffon. Yna, gan droi ei wyneb tuag at yr haul yn codi, fe gychwynnodd ar ei daith trwy Gymru.

Dyna’r ffordd y dechreuodd Randolph Ddoeth ei ymchwil ysbrydol a’i chwiliad am ystyr.

1 Ar y Stryd



Cerddodd Randolph Ddoeth tuag at gyffordd brysur ac aros. O'i flaen, roedd ceir, faniau, bysiau a loriau'n gwibio heibio. Roedd arogleuon a seiniau'r ddinas yn llenwi synhwyrâu Randolph. Roedd yn brynhawn oer ac roedd yn dechrau nosi. Roedd hi wedi bod yn bwrw glaw, ac wyneb y ffordd yn ymddangos yn llwyd tywyll. Roedd pyllau o ddŵr wedi cronni ar y palmentydd ac roedd pawb yn edrych i lawr er mwyn osgoi sblassio drwy'r pyllau mwyaf. Yn ymestyn dros un o'r ffyrdd, roedd pont rheilffordd wedi ei gorchuddio â phosteri lliwgar yn hysbysebu teithiau i wahanol leoedd.

Sylwodd Randolph bod rhywbeth yn digwydd ar y stryd o dan bont y rheilffordd. Wrth deimlo'r oerni llaith yn yr awyr, lapiodd Randolph ei gôt yn dynn amdano cyn symud yn nes i gael gweld yn well.

Yno, ar stryd y ddinas, gwelodd Randolph bobl yn ciwio wrth fwrdd hir. Roedd rhai yn ifanc ac roedd eraill yn hŷn. Roedd rhai yn ddynion ac eraill yn ferched. Roedd pawb yn aros yn amyneddgar am le wrth y bwrdd.

Y tu ôl i'r bwrdd, roedd nifer o ddynion a merched Sikhaidd yn sefyll ochr yn ochr yn gweini ar y bobl. Roedd un yn rhannu bwyd poeth ffres. Roedd un arall yn dosbarthu diodydd o ddŵr a sudd. Roedd un arall yn cynnig cotiau a blancedi i'r rhai oedd eu hangen. Roedd llawer o'r dynion Sikhaidd hyn yn gwisgo twrbanau glas tywyll neu ddu. Wrth wyllo'r olygfa anarferol hon, dechreuodd Randolph gofnodi ei sylwadau yn ei lyfr nodiadau.

Pam roedd y bobl hyn yn ciwio am fwyd a dillad, a pham roedd y dynion a'r merched Sikhaidd hyn yn rhoi mor rhydd iddyn nhw?



2 Y Drws at y Guru



Wrth i Randolph archwilio'r ddinas, roedd yn dal i feddwl am yr olygfa o dan bont y rheilffordd. Yna, fe ddaliodd rhywbeth cyfarwydd ei sylw. Yn sefyll o flaen adeilad mawr, roedd polyn uchel gyda baner lliw saffrwm a glas arno a oedd yn fflapio gyda phob hwrdd o wynt. Ar y faner, roedd y symbol cylch a chleddyfau i'w weld yn glir. Dyma'r un symbol a welodd Randolph yn gynharach y diwrnod hwnnw. Rhaid mai gurdwara Sikhaidd sydd yma, meddyliodd Randolph.

Pan aeth rhai pobl i mewn i'r gurdwara Sikhaidd, aeth Randolph i mewn ar eu hôl. Roedd y cyntedd yn eithaf prysur. Roedd merch yn tynnu ei hesgidiau ac yn eu gosod ar resel esgidiau fawr. Roedd dyn yn golchi ei ddwylo mewn sinc. Roedd merch arall yn twtio'r fêl yr oedd hi newydd ei rhoi am ei phen. Pan oedd hi'n barod, cododd ei llaw ar Randolph, gan ei wahodd drwy'r drysau dwbl mawr.

Yr ochr arall i'r drysau dwbl, gwelodd Randalph ystafell agored eang. Roedd pobl yn eistedd yn goesgroes ar gynfas wen enfawr a oedd yn gorchuddio'r llawr. Sylwodd Randalph eu bod i gyd yn wynebu llwyfan addurnedig gwych yn nhu blaen yr ystafell. Gwylodd wrth i bobl fynd at y llwyfan, gan ymgrymu, a gadael offrwm. Roedd rhai yn gadael ffrwythau ac eraill yn gadael arian. Yn chwilfrydig, symudodd Randalph yn nes er mwyn gweld yn well.

Yn awr, gallai Randalph weld mai ar gyfer llyfr mawr yr oedd y llwyfan. Roedd y llyfr yn gorwedd ar glustogau ac yn cael ei gysgodi gan ganopi. Yn eistedd y tu ôl i'r llyfr, roedd merch yn darllen yn uchel mewn Punjabi. Wrth iddi ddarllen, roedd hi'n chwifio gwyntyll o flew anifail uwchben y llyfr. Rhyfeddodd Randalph at y llyfr, a meddylodd tybed pam ei fod yn cael ei drin â chymaint o barch.





Yn y man, dechreuodd grŵp bach o gerddorion ganu'r harmoniw m a tharo'r drymiau. Pan wnaethon nhw ddechrau canu, ymunodd rhai pobl ac roedd eraill yn gwrando'n dawel. Roedd y lleisiau'n canu,

“O dafod, cân foliant gogoneddus yr Arglwydd.
Bob amser myfyria ar yr Arglwydd, Har, Har, Har.
Paid â gwrando ar unrhyw un arall, na mynd i unrhyw
le arall.

Drwy ffawd dda helaeth, byddi'n cael y Saadh
Sangat, Cwmni'r Sanctaidd.
Bedair awr ar hugain y dydd, O dafod, aros gyda
Duw, yr Arglwydd a'r Meistr sydd y tu hwnt i'n deall.
Yma ac yn dragywydd, bydd yn hapus byth bythoedd.”

Ar ddiwedd y gwasanaeth, gyda'u dwylo'n gwpan, cafodd pawb ryw faint o brasad melys. Wrth i bobl ddechrau ymadael, aeth Randolph at y ferch a oedd wedi ei wahodd i mewn. “Beth sydd wir yn bwysig i chi yma?” gofynnodd Randolph iddi.

Dyweddod y ferch, “Gurdwara yw’r lle hwn, sy’n golygu ‘tŷ’r guru’ neu’r ‘drws at y guru.’” Yna, pwyntiodd at y llyfr, a oedd yn dal i fod yn agored ar ei orsedd glustog. “Dyna’r Guru Granth Sahib, ein harweinydd a’n hathro,” dywedodd. “Cyn y Guru Granth Sahib, cawsom gyfres o ddeg guru dynol. Fe wnaeth ein degfed guru, Guru Gobind Singh, benodi’r llyfr hwn fel ei olynydd. Yn union fel guru dynol, mae’r llyfr hwn yn cyfeirio at Dduw ac yn datgelu Gair Duw i ni. Dim ond un Duw sydd, ac mae popeth a wnawn ni yn ymwneud â gwasanaethu Duw.”

Yna, rhoddodd y ferch symbol Ek Oncar efydd i Randolph. “Dyma beth sydd wir yn bwysig i mi yma. Ewch â’r anrheg hon yn ôl gyda chi,” dywedodd gyda gwên. Wrth roi’r anrheg yn ei fag, dywedodd Randolph ffarwel ac aeth ymlaen â’i chwiliad.



3 Cegin Rydd



Ar ôl y gwasanaeth, dilynodd Randolph bawb i neuadd fwyta gyda chegin fawr. Wrth i Randolph gerdded heibio'r gegin, gallai weld dynes yn coginio bara chapatti ar radell ac yn eu pentyrru'n uchel. Yn ymyl, roedd dyn yn troi cyri ffacbys a llyisiau mewn sosban enfawr. Roedd dyn arall yn gyfrifol am y reis. Yn nhu blaen y gegin, roedd y bwyd yn cael ei rannu ar ddysglau gweini unigol. Yna, roedd y rhain yn cael eu cario i'r dynion, y merched a'r plant a oedd yn eistedd gyda'i gilydd mewn rhesi ar lawr y neuadd fwyta. Roedd y cyfan yn cael ei roi i bawb am ddim.

Eisteddodd Randolph wrth ymyl merch fach a'i brawd hŷn. "Wnei di ddweud y stori eto am ein guru cyntaf, Guru Nanak, ac am yr hyn a wnaeth gydag arian ei dad," erfyniodd y ferch fach ar ei brawd.

Gwrandawodd Randolph wrth i frawd hŷn y ferch ddechrau dweud y stori. Roedd yn dychmygu bywyd yn y Punjab, ganrifoedd yn ôl. Fel llawer o dadau, roedd tad Guru Nanak eisiau i'w fab fod yn llwyddiannus yn ei fywyd. Fe fyddai hynny'n golygu ennill arian da a gallu byw'n gyfforddus mewn tŷ gwych gyda digon o fwyd i'w fwyta. Fel rhan o'r cynllun hwn, rhoddodd tad Nanak waith pwysig i'w fab ei wneud. Rhoddodd swm mawr iawn o arian i Nanak a gofynnodd iddo fynd i'r ddinas. "Defnyddia'r arian hwn ar gyfer masnachu," dywedodd wrtho, "a phan fyddi'n dod adref, fe gawn ni weld faint o elw fyddi di wedi'i wneud."

Felly, aeth y Nanak ifanc i'r ddinas gyda'i ddau ffrind, Bala a Mardana. Ar y ffordd, fe aethon nhw drwy lawer o bentrefi cyn iddyn nhw gyrraedd jyngl. Yno, yn y jyngl, fe newidiodd y cynllun.





Yn y jyngl, gwelodd Nanak ddynion sanctaidd yn gweddïo ar Dduw. Gallai weld bod y dynion hyn yn denau iawn a heb fod yn cael digon o faeth. Doedden nhw ddim yn bwyta digon o fwyd. Roedd Nanak yn pryderu'n fawr am hyn. Gweddïodd Nanak a'i ffrindiau gyda'r dynion sanctaidd, a siarad gyda nhw. Maen nhw'n sylweddoli doedd gan y dynion ddim arian i brynu bwyd a doedd neb yn rhoi bwyd iddyn nhw.

Ar unwaith, roedd Nanak yn gwybod beth oedd yn rhaid iddo'i wneud. Roedd yr arian masnachu ganddo yn ei boced, ac roedd ganddo syniad gwahanol am yr hyn yr oedd yn ei olygu i fod yn llwyddiannus. Felly, fe wariodd ei holl arian i brynu bwyd ar gyfer y dynion newynog hyn. Pan gyrhaeddodd Nanak adref heb arian, roedd ei dad yn gynddeiriog. "Erbyn heddiw, mae'r ffordd rydyn ni'n gwasanaethu pobl eraill am ddim yn y gegin hon yn mynd yn ôl i hanes y Guru Nanak a'r Gurus a ddaeth ar ei ôl," dywedodd brawd y ferch fach.


Trodd Randolph at y bobl oedd o'i gwmpas. "Beth sydd wir yn bwysig i chi yma?" gofynnodd Randolph iddyn nhw.

Dywedodd un, “Dydw i ddim yn Sikh. Pan fydda i heb arian i brynu bwyd, rydw i'n dod yma i gael bwyd poeth. Rydw i'n teimlo bod croeso yma a does neb yn fy marnu i.” Dywedodd un arall, “Does neb yn bwysicach na neb arall. Yng ngolwg Duw, rydyn ni i gyd yn gyfartal. Rydyn ni'n dysgu ac yn ymarfer hyn yn y gegin drwy'r gwasanaeth rydyn ni'n ei roi. Rydyn ni'n galw'r gwasanaeth yma'n 'sewa'. Rydyn ni'n cymryd ein tro i wasanaethu eraill. Yfory, fe fydda i'n golchi'r llestri.” Cytunodd un arall, a dywedodd, “Mae'r ffordd rydyn ni'n bwyta gyda'n gilydd yn dweud llawer am yr hyn rydyn ni'n ei werthfawrogi. Drwy gydol amser ledled y byd, mae'r ffordd y mae pobl yn bwyta gyda'i gilydd yn dangos y rhaniadau rhwng pobl. Yma, rydyn ni'n ceisio chwalu'r rhaniadau hyn.”

Yna, maen nhw'n yn rhoi bara chapatti a llun o'r Guru Nanak i Randalph. “Dyma beth sydd wir yn bwysig i ni yma. Ewch â'r anrhegion hyn yn ôl gyda chi,” dywedodd y bobl gan wenu. Wrth roi'r anrhegion yn ei fag, dywedodd Randalph ffarwel a mynd yn ei flaen â'i chwiliad.




4 Rhywbeth i Bawb



Aeth Randalph yn ôl i'r cyntedd wrth fynedfa'r gurdwara. Yno, synnodd wrth weld bachgen bach a merch yn brysur yn gweithio. Roedd y bachgen yn glanhau'r esgidiau a oedd ar y rhesel esgidiau. Gweithiai'n gyflym ond yn ofalus ar hyd y rhesi taclus o esgidiau. Roedd y ferch yn cario pentwr o dywelion glân, ac yn eu gosod yn daclus wrth y sinciau. Ar ôl iddi orffen y dasg hon, dechreuodd dacluso'r bocs lle'r oedd y gorchuddion pen yn cael eu cadw.

Cerddodd gwraig hŷn heibio, gan ganmol y ddau. "Rydych chi'n Sewadars da," dywedodd. "Rydych chi'n gwasanaethu eraill yn dda." Yna, aeth y wraig drwy'r drysau dwbl i'r neuadd weddi. Dilynodd Randalph hi.



Yn y neuadd weddi, roedd y wraig yn siarad â grŵp bach o bobl. Wrth i Randalph fynd tuag atyn nhw, edrychodd ar y llwyfan lle'r oedd wedi gweld y llyfr sanctaidd yn gynharach y prynhawn hwnnw. Erbyn hyn, roedd y llwyfan yn wag – roedd y Guru Granth Sahib yn y gwely'n ddiogel am y noson.

Roedd y bobl yn casglu'r offerynnau, pob harmoniw m a phob drwm. Wrth iddyn nhw dacluso'r llawr, roedden nhw'n sôn am y gwersi cerddoriaeth a fyddai yn ystod yr wythnos. Roedden nhw hefyd yn trafod y gerddoriaeth ar gyfer y gwasanaeth nesaf. "Mae'n dda gweld rhai cerddorion newydd yn cael eu hyfforddi," meddai'r wraig. "Mae rhannu ein doniau cerddorol yn ffordd bwysig o wasanaethu."

Sylwodd Randalph ar ddarlun lliwgar ar y wal yn ei ymyl. Llun o'r guru cyntaf, Guru Nanak, yn eistedd mewn gardd oedd hwn. Yn ymyl y guru roedd dyn yn canu offeryn llinynnol. Meddylodd Randalph am y ddawn o greu cerddoriaeth a rhan hyn mewn gwasanaethu.



Ar ôl mynd o'r neuadd weddi, denwyd Randolph at olau mewn swyddfa ar y coridor. Wrth edrych trwy ffenestr y swyddfa, gallai Randolph weld dyn ifanc yn gwyro dros sgrin cyfrifiadur. Roedd gan y dyn ifanc ddyddiadur mawr ar agor o'i flaen, ac roedd yn dethol lluniau i'w rhoi ar wefan y gurdwara. Roedd Randolph yn meddwl ei fod yn adnabod rhai o'r ffotograffau wrth iddyn nhw fflachio'n gyflym o flaen ei lygaid. Ai dyna'r stryd lle'r oedd y dynion a'r merched Sikhaidd yn bwydo pobl ac yn rhannu cotiau a blancedi? Mae'r capsiwn ar y wefan yn nodi, "Yn gwasanaethu pobl ddigartref a phawb sydd mewn angen".


Pan oedd y dyn ifanc wedi gorffen gweithio ar ei gyfrifiadur, aeth Randolph ato. "Beth sydd wir yn bwysig i chi yma?" gofynnodd Randolph iddo.

Meddylodd y dyn ifanc am foment cyn ateb, “Fi sy’n rheoli gwefan y gurdwara, ac rydw i hefyd yn dylunio posteri a phethau eraill. Rydw i’n astudio Technoleg Gwybodaeth yn y coleg, felly rydw i’n hapus i rannu fy sgiliau yma. Dyma fy sewa, sy’n golygu mai dyma un ffordd yr ydw i’n cynnig gwasanaeth. Mae sawl ffordd o wasanaethu. Mae’n bosib i’r gwasanaeth fod yn gorfforol, meddyliol neu faterol. Edrychwch o gwmpas y gurdwara hon – mae pobl yn gwasanaethu pobl eraill mewn pob math o ffyrdd.”

Yna, rhoddodd y dyn ifanc boster i Randolph yn hysbysebu’r gwasanaeth prydau bwyd am ddim ar y stryd. “Dyma beth sydd wir yn bwysig i mi yma. Ewch â’r anrheg hon yn ôl gyda chi,” dywedodd gyda gwên. Wrth roi’r yr anrheg yn ei fag, dywedodd Randolph ffarwel a mynd yn ei flaen â’i chwiliad.



5 Gwasanaethu'n Dda



Aeth Randolph yn ei ôl i'r neuadd fwyta a gwelodd bobl yn clirio. Roedd rhai'n brwsio ac yn golchi'r llawr. Roedd rhai'n golchi'r llestri, yn eu sychu a'u cadw. Roedd y bwyd a oedd yn weddill yn cael ei storio'n ofalus.

Wrth edrych o amgylch yr ystafell a oedd yn gwacáu, gwelodd Randolph y ferch fach a oedd gyda'i brawd hŷn yn y pryd bwyd yn gynharach. Roedd hi'n eistedd wrth ymyl ei nain, yn barod i fynd adref. "Wnewch chi ddweud stori am wasanaethu'n dda," erfyniodd y ferch fach ar ei nain.

Gwenodd ei nain, a dywedodd, "Mae hon yn hoff stori gen i, ac mae'n debyg dy fod wedi'i chlywed o'r blaen. Un diwrnod, aeth dyn cyfoethog o'r enw Bhai Lehna ar daith i ymweld â'n guru cyntaf, Guru Nanak. Roedd am ddysgu gan Guru Nanak ac am ei wasanaethu."

Fel arfer, fe fyddai Bhai Lehna yn teithio ar gefn ceffyl, ond yn hytrach dewisodd gerdded i weld y Guru. Roedd yn gwybod fod gan y Guru gegin rydd, a oedd yn bwydo llawer o bobl. Felly, penderfynodd Bhai Lehna y dylai fynd â rhywbeth i'r gegin, fel rhodd i'r Guru. Gan bacio cymaint o halen ag y gallai ei gario ar ei ben, cychwynnodd ar ei daith.

Pan gyrhaeddodd Bhai Lehna Kartarpur, gadawodd y pecyn halen trwm yng nghegin y Guru ac aeth i'r cae i chwilio am y Guru. Yn y cae, roedd byrnau gwair yr oedd y Guru eisiau i'w feibion fynd â nhw adref i'r anifeiliaid. Ond, roedd meibion y Guru yn meddwl eu bod yn rhy bwysig i wneud y gwaith israddol hwn. Wrth weld Bhai Lehna'n dod, meddylodd y meibion y gallai ef wneud hynny yn eu lle.





Roedd Bhai Lehna'n falch iawn o gael y cyfle hwn i wasanaethu mor fuan. Fe gariodd y byrnau gwair ar ei union i gartref y Guru. Doedd Bhai Lehna ddim yn pryderu pan gafodd ei ddillad drud, cain, eu baeddu a'u difetha.

Clywodd Randolph sut y daeth Bhai Lehna'n esiamp o sut i wasanaethu'n dda. Roedd bob amser yn chwilio am ffyrdd o wasanaethu, ac roedd gwasanaethu eraill yn ei lenwi â llawenydd. Doedd Bhai Lehna byth yn meddwl amdano'i hun pan fyddai'n gwasanaethu, dim ond am ei gariad at Dduw. Roedd hynny'n ei helpu i wasanaethu'n dda.

"Felly, mae gwasanaethu'n beth da," dywedodd y nain, "ond mae hyn yn ymwneud â dysgu gwasanaethu heb fod yn hunanol." Pan oedd y nain wedi gorffen siarad â'r ferch fach, aeth Randolph atyn nhw. "Beth sydd wir yn bwysig i chi yma?" gofynnodd Randolph iddyn nhw.

Dyweddod y nain, “Mae gwasanaethu’n dda yn bwysig iawn, ac mae hyn yn beth anodd ei wneud. Gall fod yn anodd gwasanaethu pobl eraill heb feddwl amdanoch chi eich hun a’ch diddordebau eich hun. Mae pawb ohonom yn blino, yn brysur, ac yn gallu bod dan straen, ac fe all pethau eraill fynd â’n sylw. Er mwyn fy helpu i wasanaethu’n well, fe fydda i’n myfyrio ar enw Duw bob bore. Mae hyn yn fy nhawelu ac yn fy helpu i ganolbwyntio’n well ar sut i wasanaethu Duw’n dda.”

Yna, rhoddodd y nain fag bach o halen i Randolph. “Dyma beth sydd wir yn bwysig i mi yma. Ewch â’r anrheg hon yn ôl gyda chi,” dywedodd gyda gwên. Wrth roi’r anrheg yn ei fag, dywedodd Randolph ffarwel.

Crychodd Randolph ei dalcen a meddwl. Fe allai weld bod gwasanaethu eraill wir yn bwysig. Roedd yn gwybod bod hyn yn rhan o’i ymchwil ysbrydol a’i chwiliad am ystyr. “Ond beth mae pobl eraill mewn lleoedd gwahanol yn ei ddweud am hyn?” gofynnodd Randolph.



6 Partneriaeth Gristnogol



Teithiodd Randalph i'r gogledd ac yna i'r de, i'r dwyrain ac yna i'r gorllewin. Arweiniodd ei chwiliad ef heibio mynyddoedd a dyffrynnoedd, trwy ddinasoedd a threfi, o amgylch arfordiroedd a llynnoedd. Yna, pan gyrhaeddodd stryd fawr dinas, fe arhosodd. Yng nghysgod drws, gwelodd Randalph sach gysgu a nifer o fagiau plastig llawn. Ychydig ymhellach ar hyd y palmant, gwelodd babell dros dro a sip ei drws wedi'i gau. Wrth i Randalph edrych o'i gwmpas, dechreuodd sylwi ar hyd yn oed fwy o arwyddion yn ymwneud â phobl yn byw ar y strydoedd.


Yn fuan, aeth rhywbeth arall â sylw Randalph. Yn dawel, cerddodd dyn mewn gwisg ddu yn araf i lawr y stryd fawr. O bryd i'w gilydd, roedd pobl yn ei gyfarch neu roedd yn aros i siarad â rhywun. Pan oedd y dyn wedi gorffen ei daith, fe aeth i mewn trwy ddrysau mawr agored yr eglwys gadeiriol.

Wrth i Randalph ddilyn y dyn i mewn, meddylodd, "Tybed beth fyddai Cristion yn gallu ei ddweud wrthyf am wasanaethu eraill?"

Y tu mewn i'r eglwys gadeiriol, roedd dillad yn cael eu bwndelu a'u rhoi mewn sachau du mawr gan grŵp bach o bobl. Yna, fe fyddai'r bagiau'n cael eu hanfon i hostel leol ar gyfer pobl ddigartref. "Rydyn ni wedi derbyn llawer o roddion," meddai'r dyn yn y wisg ddu. "Rydw i eisoes wedi mynd â thri llond car o ddillad i'r hostel yr wythnos hon."

Gwrandawodd Randolph yn ofalus. Nid dillad yn unig oedd yn cael eu rhoi i helpu pobl ar y stryd. Yn dibynnu ar yr hyn oedd ei angen o ddifri, roedd sachau cysgu a phebyll dros dro yn cael eu rhoi hefyd, yn ogystal â mathau eraill o ofal.

Meddyliodd Randolph am fywyd ar y stryd, a sut y gall pobl wneud gwahaniaeth. Pan oedd y sachau dillad yn barod i'w hanfon, gofynnodd Randolph y cwestiwn, "Beth fyddai'n bosib i Gristion ei ddweud am wasanaethu eraill?"





Roedd un yn cofio sut roedd gwaith y gadeirlan gyda phobl ddi-gartref wedi dechrau. Pwyntiodd at y dyn mewn gwisg ddu. Roedd erbyn hynny'n siarad gyda llanc ifanc a oedd yn eistedd yn swp ar y llawr y tu allan i'r Drws Gorllewinol. "Dacw Caplan y Stryd Fawr," dywedodd.


Rai blynyddoedd yn ôl, fe fyddai Caplan y Stryd Fawr yn sylwi ar fath gwahanol o ymwelydd yn dod i'r eglwys gadeiriol. Yn aml, fe fydden nhw'n gofyn am arian. Felly, fe ofynnodd y cwestiwn, 'Beth fyddai'r ffordd orau i'r eglwys gadeiriol wasanaethu'r bobl hyn?' Er mwyn dod o hyd i ateb, fe dreuliodd amser gyda nhw a dechreuodd ddeall eu hanghenion cymhleth. Sylweddolodd fod pethau'n newid yn gyflym ar y strydoedd, a bod y cam rhwng bywyd a marwolaeth yn fach iawn. Does dim llawer o gefnogaeth i'r bobl hyn gael mynediad ati'n gyflym, felly fe ddaeth Caplan y Stryd Fawr o hyd i ateb i'w gwestiwn. Y ffordd orau y gallai'r eglwys gadeiriol wasanaethu'r ymwelwyr hyn fyddai trwy helpu i ddarparu ymatebion syml, uniongyrchol i'w hanghenion.

“Felly, fe welwch chi,” dywedodd y wraig wedyn, “mae gwasanaethu eraill yn bwysig i ni fel Cristnogion hefyd. Mae eglwys gadeiriol yn lle arbennig. Mae ei drysau enfawr ar agor i bawb. Mae llawer o wahanol bobl yn derbyn y gwahoddiad tawel hwn ac yn cerdded i mewn. Rydw i’n credu bod Duw yn cwrdd â phobl fel y maen nhw, ac yn gwybod beth yw eu hanghenion brys mwyaf. Felly, fe ddechreuodd ein gwaith gyda phobl ddigartref trwy ddarparu bwyd a datblygu partneriaeth gyda sefydliad tai lleol. Mae’r bartneriaeth hon yn ein helpu i nodi anghenion uniongyrchol, ac mae’r anghenion hyn yn newid. Ar hyn o bryd, rydyn ni’n ariannu llety i bobl ddigartref sy’n dod o’r ysbyty. Mae arnyn nhw angen rhywle cynnes a sych lle byddan nhw’n gallu gwella. Mae rhai pobl yn rhoi yn hael at Bartneriaeth yr Eglwys Gadeiriol, sy’n gwneud hyn i gyd yn bosibl.”

Yna rhoddodd y wraig sach gysgu i Randolph. “Ewch â hon yn ôl gyda chi,” dywedodd gyda gwên. Wrth roi’r anrheg yn ei fag, dywedodd Randolph ffarwel a mynd ymlaen ar ei daith.



7 Elusen Fwslimaidd



Teithiodd Randalph ymlaen ac ymlaen, gan wynebu'r haul a'r glaw, yna'r stormydd a'r eira. Wnaeth Randalph ddim aros nes ei fod yn sefyll y tu allan i fosg. Roedd yn bosib adnabod y mosg yn hawdd oddi wrth y minarét tal a'r gromen. Wrth edrych yn fanylach ar yr adeilad, sylwodd Randalph hefyd ar arwydd y lleuad cilgant a'r seren.

Yna, y foment honno, cafodd drysau'r mosg eu gwthio ar agor ac roedd pobl yn llifo allan ar ôl eu gweddïau boreol. Teimlodd Randalph ysgafnder a chyffro dathlu yn yr awyrgylch. Yn sicr, doedd hwn ddim yn ddiwrnod cyffredin!

"Eid Mubarak!" galwodd dyn ar ei ffrind. "Khair Mubarak," atebodd y ffrind, cyn iddyn nhw gofleidio'i gilydd yn gynnes.

Wrth i Randalph wyllo'r ddau ffrind yn siarad ac yn chwerthin gyda'i gilydd, dywedodd wrtho'i hun, "Tybed beth fyddai Mwslim yn gallu ei ddweud wrthyf am wasanaethu eraill?"


Dilynodd Randolph y ddau ffrind ar eu taith adref. Wrth i'r dynion sgwrsio, clywodd Randolph am yr ymryd mis a oedd wedi dod i ben ganddyn nhw. Mae'n rhaid ei fod yn anodd peidio â bwyta nac yfed yn ystod oriau golau dydd am fis cyfan, meddylodd Randolph.

Dywedodd un o'r dynion, "Yn ystod yr ymryd Ramadan hwn, rydw i wedi bod yn meddwl pa mor anodd yw bywyd i'r rhai sydd heb lawer. Mae cymaint o bobl yn cael trafferth i ddim ond byw." Nodiodd ei ffrind ei ben a chytuno gan ddweud, "Fe allwn ni fod yn ddiolchgar am roddion helaeth Duw."

Cyrhaeddodd y dynion giât fach a oedd yn arwain at dŷ teras taclus. Symudodd y llenni'n amlwg yn yr ystafell ffrynt, ac yna roedd sŵn traed bach yn brysio. Agorodd y drws ffrynt ar led. "Eid Mubarak!" gwaeddodd y plant, wrth iddyn nhw groesawu eu tad a'u ffrind adref.

Cyn i'r dynion gamu i mewn i'r tŷ, gofynnodd Randolph y cwestiwn, "Beth fyddai'n bosib i Fwslim ei ddweud am wasanaethu eraill?"





Cafodd Randolph ei wahodd i mewn i'r tŷ. Roedd arogl coginio yn dod o'r gegin. Roedd cardiau wedi'u gosod ar hyd sil y ffenestr. Nodai un cerdyn, "Boed i'r diwrnod arbennig hwn ddod â heddwch, hapusrwydd a llwyddiant i bawb. Eid Mubarak!" Ar fwrdd yr ystafell fwyta, roedd anrhegion newydd gael eu hagor. Yna, roedd merch ifanc yn pasio dysglaid o felysion o gwmpas.

Gan eistedd ar y soffa, meddyliodd y tad am gwestiwn Randolph. Dywedodd, "Heddiw, rydyn ni'n dathlu gŵyl Eid al Fitr, sy'n nodi diwedd ein hymprydio. Mae hwn yn amser pwysig o roi i eraill. Yn ystod y mis hwn, rydyn ni wedi rhoi mwy nag y gwnawn ni fel arfer. Mae bywyd yn anodd i lawer o bobl ar hyn o bryd, ac mae'n ddyletswydd arnom ni eu helpu os gallwn ni wneud hynny. Doedd fy merch hynaf ddim eisiau anrhegion Eid eleni. Yn hytrach, gofynnodd i mi roi'r arian i elusen Fwslimaidd sy'n gweithio gyda phobl sy'n dioddef oherwydd trychinebau naturiol."

“Felly, fe welwch chi,” dywedodd y tad wedyn, “mae gwasanaethu eraill yn bwysig i mi fel Mwslim hefyd. Mae popeth yn dod gan Dduw. Mae’n iawn fy mod i’n rhannu’r hyn y gallaf ei fforddio gydag eraill sydd ei angen. Dyma un o Bum Piler ein ffydd, a roddwyd i ni gan Dduw. Felly, trwy wasanaethu eraill fel hyn, rydw i’n gwasanaethu Duw.”

Yna cododd y cerdyn Eid, gyda’i neges arbennig, oddi ar sil y ffenestr a’i roi i Randalph. “Ewch â hwn yn ôl gyda chi,” dywedodd gyda gwên. Wrth roi’r arheg yn ei fag, dywedodd Randalph ffarwel a mynd ymlaen ar ei daith.



Allwch chi helpu Randolph?

Cafodd Randolph Ddoeth lawer o roddion ar ei deithiau. Mae hefyd wedi nodi llawer o bethau yn ei lyfr nodiadau. Ond nid yw'r ymchwil wedi dod i ben eto. Mae lle yn ei fag o hyd i fwy o bethau er mwyn ei helpu i fyfrio ynghylch 'gwasanaethu eraill' fel rhywbeth sydd wir yn bwysig.

Mae Randolph angen eich help chi.

Pa leoedd eraill y gallai Randolph ymweld â nhw er mwyn cael gwybod am wasanaethu eraill?

Pwy y gallai eu holi yn y manau hynny?

Ydych chi'n meddwl bod gwasanaethu eraill rhywbeth sydd wir yn bwysig?

Sut gydych chi'n gwasanaethu eraill?

Pa rodd fydddech chi'n ei rhoi i Randolph fynd yn ôl gydag ef?



BYWD AM DDIM



Randolph Ddoeth yn mynd yn ei ôl adref

Wrth i'r haul fachlud, aeth Randolph Ddoeth flinedig yn ei ôl i'w ystafell, lle y dadbaciodd ei fag yn ofalus. Fesul un, fe osododd o'i flaen yr *holl* bethau hynny yr oedd wedi'u casglu ar ei daith trwy Gymru.


Yna, eisteddodd Randolph Ddoeth ar ei gadair, gan grafu ei ben llwyd henaidd, a meddwl am y cwestiwn mawr iawn.

“Beth sydd *wir* yn bwysig?” Gofynnodd eto mewn llais dwfn, trwm. Y tro hwn, fe gafodd ateb gan yr *holl* bethau yr oedd wedi'u casglu ar ei daith.

Gwrandawodd Randolph Ddoeth yn ofalus a gwenodd.

“Dyma ran hanfodol o fy ymchwil ysbrydol a fy chwiliad am ystyr!” dywedodd. “Mae pobl yn gwasanaethu eraill mewn sawl ffordd. Mae gwasanaethu'n dda yn gwneud gwahaniaeth i'r un sy'n gwasanaethu a'r sawl sy'n cael ei wasanaethu. Mae gwasanaethu eraill yn rhywbeth sydd *wir* yn bwysig.”





BYWD AM DDIM



Eid
Mubarak

Fy arwezl
Randallph



HALEN





Darllen rhagor ...

Ymunwch â Randalph Ddoeth ar rai o'i deithiau eraill o amgylch Cymru.

Cyhoeddir pob llyfr stori yn Gymraeg ac yn Saesneg. Mae copïau mynediad agored ar gael ar wefan 'Hwb' Llywodraeth Cymru (hwb.gov.wales) ac ar Wefan Canolfan y Santes Fair (st-marys-centre.org.uk). Darperir canllawiau i athrawon, ffilmiau a cherddoriaeth hefyd.







Mae Randolph Ddoeth yn chwilio am atebion i'r cwestiwn mawr iawn. Mae eisiau gwybod, 'Beth sydd *wir* yn bwysig?' Mae'r cwestiwn hwn yn mynd â Randolph ar siwrnai drwy Gymru. Ar ei deithiau, mae'n dod o hyd i rai lleoedd a phobl arbennig i'w helpu gyda'i ymchwil.

Yn y stori hon, mae Randolph yn canfod Sikhiaid ar stryd dinas brysur yn Ne Cymru. Yma, mae'n dysgu bod *Gwasanaethu Eraill* yn rhywbeth sydd *wir* yn bwysig. Mae ymweliad ag eglwys gadeiriol Anglicanaidd, ac â mosg, yn gwneud iddo feddwl hyd yn oed yn ddyfnach am yr hyn y gall *Gwasanaethu Eraill* ei olygu.

Ydych chi'n barod i ymuno â Randolph yn ei ymchwil ysbrydol a'i chwiliad am ystyr? Efallai y gallwch chi helpu Randolph gyda'r cwestiwn mawr iawn hefyd. Beth sydd *wir* yn bwysig?

